

TRI THARGED

I DRAWSNEWID DYFODOL CANسر YR OFARI: CYMRU



Mae Canسر yr Ofari yn parhau i gael ei anwybyddu ac mae menywod sydd â'r clefyd yn cael eu methu

Fel Aelod o'r Senedd, mae gennych y pŵer i newid hyn drwy weithio gyda Target Ovarian Cancer.

Mae gennym gynllun: tri tharged a fydd yn trawsnewid dyfodol pawb sy'n cael diagnosis o ganser yr ofari, ac mae angen eich help arnom i'w cyflawni.



Ymgyrch ymwybyddiaeth a ariennir gan y llywodraeth fel bod pawb yn gwybod y symptomau.

Gwyddom nad yw poen ac anghysur menywod wedi cael eu cymryd o ddifrif yn rhy aml, ac nad ydynt wedi cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am ganser yr ofari.

Heb raglen sgrinio hyfyw, mae'n hanfodol bod pob menyw yn gwybod y symptomau, a'n bod yn mynd i'r afael â'r camsyniadau ynghylch canسر yr ofari i sicrhau bod menywod yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gysylltu â'u meddyg teulu cyn gynted â phosibl.

"Doeddwn i erioed wedi clywed am ganser yr ofari cyn i mi gael diagnosis. Wrth aros am ganlyniadau fy sgan, chwiliais am fy symptomau ar Google o'r diwedd a daeth canسر yr ofari i fyny - ond roedd misoedd eisoes wedi mynd heibio ers i mi fynd at y meddyg teulu gyntaf. Pe bawn i'n gwybod yr arwyddion yn gynharach, gallwn i fod wedi pwyso am iddo gael ei ystyried yn gynt a chael diagnosis yn llawer cynharach. Nid yw ymwybyddiaeth yn ddewisol; mae'n achub bywyd. Nid yw gormod o fenywod yn gwybod y symptomau, ac mae gormod yn cael eu diystyru neu eu diagnosisio'n rhy hwyr. Mae angen ymwybyddiaeth well, gwybodaeth well, a system sy'n gwrando arnom ar frys." - Sarah L

27%

o fenywod yng Nghymru sy'n gallu enwi'r symptom ymchwyddo.

42%

o fenywod yng Nghymru yn credu'n anghywir bod sgrinio serfigol yn canfod canسر yr ofari.



Er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod symptomau canسر yr ofari, mae angen i ni weld:

- ▶ Ymgyrch ymwybyddiaeth symptomau wedi'i hariannu, yn cynnwys symptomau canسر yr ofari.
- ▶ Llywodraeth Cymru i ddiweddarau gwybodaeth sgrinio serfigol a'i gwneud ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan egluro na fydd yn canfod canسر yr ofari.

Llwybr diagnostig byrrach ar gyfer canser yr ofari, gyda chefnogaeth a hyfforddiant i feddygon teulu.

Ar hyn o bryd, i gael diagnosis, mae angen i fenywod gael eu meddyg teulu i'w hatgyfeirio am brawf gwaed CA125, ac os yw hwnnw yn uchel, yna gellir archebu sgan uwchsain. Mae oedi o ran cael mynediad at brofion a meddygon teulu yn derbyn y canlyniadau. Gwyddom fod y cynharaf y caiff menyw ddiagnosis, y mwyaf yw ei siawns o oroesi, ond mae oedi wrth gael mynediad at brofion yn atal menywod rhag dechrau triniaeth sy'n achub bywyd.

Nid yw'r prawf gwaed CA125 bob amser yn brawf dibynadwy ar gyfer clefyd cyfnod cynnar (cam I neu II). Felly, gall defnyddio prawf CA125 yn unig fethu clefyd cyfnod cynnar sef yr un mwyaf triniadwy. Er mwyn mynd i'r afael â'r oedi mewn profion a chyfyngiadau'r offer diagnostig cyfredol, mae angen i ni weld y prawf CA125 a'r sgan uwchsain yn cael eu cynnal ar yr un pryd.

Mae'r canfyddiadau a adlewyrchir yn adroddiad Heb Lais yng Nghymru yn atgyfnerthu'r angen brys i gryfhau ymwybyddiaeth a hyfforddiant meddygon teulu i gefnogi diagnosis cynharach o ganser yr ofari. Mae ymwybyddiaeth meddygon teulu hefyd yn allweddol ar gyfer diagnosis cynnar. Fodd bynnag, mae gormod o fenywod yn profi diagnosis anghywir ac oedi o ganlyniad i feddygon teulu ddim yn cael eu haddysgu na'u cefnogi'n briodol i wneud diagnosis o ganser yr ofari yn gyflym. Dim ond os yw llwybrau a systemau atgyfeirio lleol wedi'u cynllunio i'w cefnogi y gall meddygon teulu weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon ar eu gwybodaeth. Heb y gallu i werthuso offer addysg cyfredol fel Gateway C, ni allwn adnabod y bylchau mewn addysg meddygon teulu na sicrhau bod mwy o fenywod yn cael diagnosis yn gynnar.

"Mae fy mhrofiad yn dangos pa mor hanfodol y gall ymwybyddiaeth meddygon teulu a mynediad cyflym at brofion fod. Pan ddes i o hyd i lwmp ym mis Awst 2024, gweithredodd fy meddyg teulu ar unwaith - o fewn dyddiau cefais brofion gwaed, sganiau ac atgyfeiriadau. Newidiodd y cyflymder hwnnw gwrs fy mywyd yn llythrennol. Byddaf bob amser yn ddiolchgar am ba mor gyflym y gwnaeth fy meddyg teulu ymateb ymddiried yn fy ngreddf, a sicrhau bod pob prawf yn cael ei wneud heb oedi. Mae gweithredu'n gynnar yn bwysig, ac yn fy achos i, fe wnaeth yr holl wahaniaeth." – Sarah H

54%
o feddygon teulu yng Nghymru eu bod wedi aros 15 diwrnod neu fwy i dderbyn canlyniadau uwchsain..

40%
o fenywod yng Nghymru eu derbyn i'r ysbyty ar frys 28 diwrnod cyn cael diagnosis.



Er mwyn sicrhau bod menywod â chanser yr ofari yn cael y profion sydd eu hangen arnynt, mae angen i ni weld:

- ▶ Cwtogiad o'r llwybr diagnostig ar gyfer canser yr ofari, gyda'r prawf gwaed CA125 ac uwchsain yn cael eu cynnal ar yr un pryd.
- ▶ Argymhellion Heb Lais: Gweithredu ar adroddiad Taith Menywod Drwy Ganser Gynaecolegol i gryfhau addysg meddygon teulu ar ganser yr ofari, a mynediad at offer cefnogi penderfyniadau effeithiol.

Strategaeth cancer hirdymor newydd i yrru gwelliannau mewn canlyniadau cancer a gwella mynediad at driniaeth a threialon clinigol

Mae pawb sydd â chanser yr ofari yng Nghymru yn haeddu'r driniaeth orau bosibl, wedi'i thargedu at eu hanghenion. Mae mynediad at y driniaeth gywir yn hanfodol i wella siawns menyw o oroesi, a llawdriniaeth yw'r driniaeth sy'n cynnig y prognosis hirdymor gorau. Ni ddylai mynediad at driniaeth gael ei bennu yn ôl oedran na ble rydych chi'n byw.

Rhaid inni weld mynediad gwell at dreialon clinigol, yn enwedig i'r rhai sydd â dewisiadau triniaeth cyfyngedig, gan helpu i sicrhau bod gan bawb sy'n cael diagnosis o ganser yr ofari yng Nghymru'r cyfle gorau posibl i oroesi.

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod y gwledydd hynny sydd â strategaethau cancer wedi bod fwyaf effeithiol wrth wella canlyniadau i gleifion. Mae angen i ni weld dull cyd-gysylltiedig o fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cancer yng Nghymru.

"Ers fy niagnosis 15 mlynedd yn ôl, rydw i wedi manteisio ar bob cyfle i godi ymwybyddiaeth o ganser yr ofari a galw am strategaeth cancer gryfach a mwy beiddgar yng Nghymru.

I ormod o fenywod, mae cancer yr ofari yn cael ei ganfod yn hwyr, ac yna mae'r opsiynau triniaeth yn gyfyngedig. Ni allwn dderbyn hynny. Cymru yw'r unig genedl yn y DU heb strategaeth cancer a rhaid i hynny newid.

Gyda fy nghanser yn dychwelyd yn 2026, rwy'n fwy penderfynol nag erioed: Mae angen gweithredu brys a phendant ar Gymru." – Linda



1 in 4

menyw yng Nghymru a gafodd ddiagnosis unrhyw driniaeth o gwbl am ganser yr ofari.

25%

o fenywod a gafodd ddiagnosis o ganser yr ofari yng Nghymru a ofynnwyd iddynt ymuno â threial clinigol gan unrhyw un a oedd yn rhan o'u triniaeth.



Er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cael diagnosis o ganser yr ofari yn cael y driniaeth y maent yn ei haeddu, mae angen i ni weld:

- ▶ Strategaeth cancer hirdymor newydd i yrru gwelliannau mewn canlyniadau cancer.
- ▶ Cleifion wedi'u grymuso i ofyn am dreialon clinigol, gyda chyfeiriadau at wybodaeth am dreialon clinigol wedi'u hymgorffori mewn rhyngweithiadau rhwng cleifion a'u tîm clinigol.
- ▶ Mae canserau gynaeolegol yn parhau i fod yn safle tiwmor blaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru



Mae dros 300 o fenywod

yn cael diagnosis o ganser yr ofari bob blwyddyn yng Nghymru.

Mae 150 o fenywod



yn marw o'r clefyd bob blwyddyn yng Nghymru

Canser yr ofari yw'r

chweched achos mwyaf

cyffredin o farwolaethau o ganlyniad i ganser ymhlith menywod yn y DU.



Os caiff y clefyd ei ddiagnosisio yn y cam cynharaf,

bydd 93% o fenywod

yn goroesi am o leiaf bum mlynedd



13% o fenywod

a gaiff eu diagnosisio yn y cam mwyaf datblygedig.